

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

329 - Beirniadaeth Barddoniaeth Bl.12 a 13

Beirniad: Gruffudd Antur

Derbyniwyd chwe cherdd ar y testun 'Adre'. Roeddwn yn falch o weld cerdd gaeth yn eu plith, sef englyn gan *DIM FFUGENW!*, ond er mor gofiadwy yw'r esgyll ('i fan hyn y dof yn ôl, / i fy adre anfeidrol'), yn anffodus mae'r gynganedd yn wallus yn y paladr. Cafwyd cyfres o englynion digynganedd ynghylch tro'r tymhorau gan *Rala Rwdins*, a chryfder cymdogaeth yn wyneb pob bygythiad yw testun cerdd gadarn *Pitar*.

Y tri sy'n dod i'r brig, a hynny am gerddi synhwyrus a chynnil, yw *Calon Hapus*, *Mefus* ac *Y Fâl*. Soned sy'n trafod yr hiraeth o golli cyfaill neu aelod o'r teulu a gafwyd gan *Calon Hapus*, ac er nad yw'r mydr yn berffaith reolaidd mae'n cyfleu chwithdod ingol y bwlch a adewir ar ôl yn gofiadwy. Bwlch gwahanol yw testun *Mefus*, sef y bwlch pan fo dau gariad yn gwahanu'n ddisymwth, a'r ysfa am gael dychwelyd at y dyddiau da. Ond heb unrhyw amheuaeth, *Y Fâl* sy'n hawlio'r wobr gyntaf gyda cherdd sy'n trafod y newidiadau a welwyd yng nghymoedd diwydiannol y De er pan giliodd y diwydiannau trwm, gan adael i natur hawlio'r tir unwaith eto, a 'siffrwd y gorffennol / Yn gudd tu ôl i'r llenni dail'. Hoffais gynildeb y dweud yn y gerdd hon, a llwyddodd y bardd i ddewis geiriau sy'n bwrpasol nid yn unig o ran ystyr ond hefyd o ran sain. Mae'n llawn haeddu'r wobr gyntaf.

1af – Elena Ruddy

2il – Mirain Francis

3ydd – Alice Jewell